

DOLEN Y TAB 108

27-28 Mai 2022

Oedfa Fore Sul 29 Mai am 11

Yng ngofal Margaret Pritchard Copley,
Rhiannon Humphreys a Geraint Rees

YR OEDFAON NESAF

Mehefin

- 5 Dafydd Iwan a Helen Prosser
- 12 Aled Edwards a Nia Williams
- 19 Glenys Roberts ac Edwyn Evans
- 26 Ann ac Emlyn Davies

Hefyd ddydd Sul 22 Mai

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

16:30 Oedfa Radio Cymru

Oedfa o Ddinbych ar ddechrau Eisteddfod yr Urdd gyda ieuencid y fro.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol – Urdd

Ar drothwy Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, cawn fwynhau canu cynulleidfaol gan bobl ifanc yr ardal o dan arweiniad Ceri Haf Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru



DYMUNIADAU GORAU

Pob dymuniad da i blant a phobl ifanc y Tabernacl a'r gymuned fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych yr wythnos nesaf. Wedi aros am ddwy flynedd fe fydd croeso gwresog iawn yn eich aros yn Nyffryn Clwyd.



DIOLCH YN FAWR

Ar ran Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau'r Tabernacl am eu cefnogaeth i'r Cwrdd Chwarter llwyddiannus iawn a gynhaliwyd nos Fercher. Mae'n ymddangos bod un mlynedd ar ddeg wedi mynd heibio ers i'r Cyfundeb gynnal eu Cwrdd Chwarter yma ddiwethaf, er i'r eglwys wahodd Sul y Cyfundeb i'r Tabernacl rhyw bum mlynedd yn ôl. Mae gennym le i ddiolch yn ddiffuant iawn i'r pedwar ofalodd am y defosiwn agoriadol – Bethan Guilfoyle, Geraint Wyn, Gwenfil a Bethan Roberts ac i Gaynor a'r chriw niferus fu mor ddiwyd yn paratoi a gweini'r danteithion ar ddiwedd y cwrdd.


Wrth feddwl pa mor ganolog yw cyfraniad Emlyn i Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar yr Undeb, roedd hi'n briodol iawn mai yma yn y Tabernacl y cafodd eglwysi'r Cyfundeb weld ffrwyth yr Ymgyrch gyntaf.

Gwilym Huws
Ysgrifennydd, Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Taith Gerdded
Heddwch yn y Ddinas
Arweinydd: Jon Gower

Bae Caerdydd
10 Bore Sadwrn, 4 Mehefin 2022



Man Cychwyn:
Grisiau Senedd Cymru, CF10 4PH

Rhowch wybod i Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk)
os ydych yn bwriadu dod ar y daith erbyn
Dydd Mercher 1 Mehefin

NHED?

Roedd cryn grafu pen pan ddarllenais fod y Twmiaid Bach a Mawr am baratoi ymateb i NHED fel rhan o'u rhaglen ar gyfer mis Mai. Roeddwn yn credu fy mod yn gyfarwydd ag ystod eang o acronymau ond roedd hwn yn un nad oeddwn wedi dod ar ei draws o'r blaen. Ond daeth datrysiaid i'm penbleth yn blygeiniol ar fore 18 Mai a hynny drwy'r fideo a ryddhawyd gan y Twmiaid ar dudalen Facebook y Tabernacl – sef **Neges Heddwch** ac **Ewyllys Da** yr Urdd. Diolch iddynt am eu hymateb meddylgar a lliwgar i ryfela ac i'r argyfwng hinsawdd, sef prif thema'r neges eleni.

Mae 2022 yn nodedig yn hanes NHED gan fod can mlynedd union ers i'r neges gyntaf ar ran plant Cymru gael ei hanfon. Sylfaenydd y neges oedd y Parchedig Gwilym Davies, Bedlinog, a berswadiodd y Swyddfa Post i'w danfon allan fel signal telegraff. Ni chafwyd yr un ymateb yn y flwyddyn gyntaf na'r ail, ond derbyniwyd dau ateb yn 1924 pan gafodd y neges ei darlledu ar wasanaeth radio'r BBC. Ers hynny mae'r neges wedi mynd o nerth i nerth a chael ei hanfon i bob rhan o'r byd yn gyntaf drwy gyfrwng y '**Pellebr Diwifr**' [h.y. radio] ond erbyn heddiw dros y rhyngwlad fyd eang ar ffurf negeseuon Twitter, Instagram, Facebook ac ati, a hynny mewn 100 o wahanol ieithoedd. Mae gennym le i ymfalchïo fel cenedl bod y neges unigryw hon wedi ei hanfon yn ddi-dor dros yr holl flynyddoedd, ond dagrau pethau yw nad yw'r gwleidyddion dros y cenedlaethau wedi gweithredu arni.

Tra'n cyfaddef nad oedd yr acronym yn gyfarwydd, rwyf yn cofio faint o argraff gafodd bodolaeth y neges arnaf yn blentyn. Yn wir, i'r fath raddau fel fy mod yn cofio arwyddocâd 18 Mai yn well na dyddiad pen-blwydd aelodau o'r teulu a chyfeillion. Ar ben hynny, Gwilym Davies oedd un o'm harwyr yn fy llencyndod, a hyd heddiw o ran hynny, am ei gyfraniad difesur i'r mudiad heddwch yng Nghymru.



Gwahoddiad i



**BARBECIU
CAPEL Y TABERNACL**

Dydd Sul 10fed o Orffennaf
12 o'r gloch
Y Ganolfan a'r Ardd Gymunedol

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cofiwch fod modd anfon cofnodion y Bwrdd at unrhyw aelod o'r Tabernacl sydd am derbyn copi wedi iddynt gael eu cadarnhau gan y Bwrdd trwy gysylltu gyda:

gehpengwern@yahoo.co.uk neu ffonio
01443 237327

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 15 – 21 MAI

Bydd Apêl WCC eleni yn casglu arian i helpu Zimbabwe, sy'n dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae prisiau bwyd wedi codi'n aruthrol yno oherwydd Rhyfel Putin yn Wcráin. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig yn 2020 (sieciau a throsglwyddiadau banc) ar gyfer ein casgliad ni, ond bydd amlenni yng nghyntedd y capel i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.

Bydd modd cyfrannu drwy gydol mis Mai, a bydd Casgliad Wcráin yn dod i ben dros dro, ac yn aildechrau ym mis Mehefin.

Sieciau: yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf. gan nodi Wythnos Cymorth Cristnogol, at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Trosglwyddiad Banc: gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol
Cod Didoli: 30 – 96 – 72
Rhif Cyfrif: 03607499

**Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**



Cinio Mawr Efail Isaf Dydd Sadwrn 11 Mehefin 2022 Neuadd y Pentre 12.30pm-2.30pm

Pob blwyddyn, daw pobl at ei gilydd i fwynhau Cinio Mawr yr Eden Project

Dathliad o
Gymuned, Cyfeillgarwch a Hwyl

Dewch â bwyd i'w rannu, plât, cylllell a fforc

Cerddoriaeth a chyfle i sgwrsio gyda chymdogion

**Mynediad am Ddim.
Croeso Cynnes i Bawb!**



Pobl Efail Isaf Villagers

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf.yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at:
07710 237327 / 01443 225205 /
gehpengwern@yahoo.co.uk